



## Athletau Cymru

### Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 28<sup>ain</sup> Gorffennaf 2022 – 8<sup>fed</sup> Awst 2022

#### Polisi Enwebu Athletwyr

#### Cyflwyniad

- 1 Cytunwyd ar y polisi hwn gan Athletau Cymru a Gemau'r Gymanwlad Cymru (CGCW). Mae'n egluro proses Athletau Cymru o benderfynu ar yr athletwyr yr argymhellir eu bod yn cael eu henwebu i gael eu dewis i fod yn Nhîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad Birmingham 2022.
- 2 Ym mhob achos, mae'r argymhelliad gan Athletau Cymru yn cynrychioli enwebiad i CGCW ar gyfer y cyfnod dewis. Bydd y penderfyniad olaf yn y broses o ddewis tîm ar gyfer Gemau 2022 yn cael ei wneud gan CGCW. Mae llwyddo i fodloni'r meini prawf dewis felly yn golygu **cymhwystra i gael eich enwebu**, nid eich dewis.
- 3 Dim ond yr athletwyr canlynol y caiff Athletau Cymru yr opsiwn o'u henwebu: Athletwyr sydd wedi cymhwyso yn unol â meini prawf enwebu Athletau Cymru a restrir isod, yn ogystal â'r meini prawf a restrir yn Llawlyfr Dewis CGCW (ar gael ar wefan Tîm Cymru yma; <http://teamwales.cymru/en/> [UPDATE LINK](#)) a'r meini prawf perthnasol o fewn Cyfansoddiad Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad (ar gael ar wefan CGF yma; <http://www.thecgf.com/about/constitution.pdf> [UPDATE LINK](#)) – a dylid darllen y ddwy set o feini prawf ar y cyd â'r polisi hwn.

#### Nod y polisi enwebu

#### 4 Enwebu i Dîm Cymru

- (i) Tîm o athletwyr sydd â'r gallu i gystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad 2022, gydag amcan clir bod yr unigolion wedi dangos fod ganddynt y gallu i gyrraedd un o'r chwe lle uchaf yn y maes dan sylw yn unol â'r canllawiau enwebu a nodir yn adran 11 (Tabl 1) o'r ddogfen hon.
- (ii) Bydd Athletau Cymru yn enwebu Tîm sy'n cefnogi Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 ac sy'n datblygu'r amcan strategol o baratoi athletwyr i fod yn barod ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2026.
- (iii) Bydd Athletau Cymru hefyd yn ystyried athletwyr sydd â photensial amlwg o ennill medalau ym Mhencampwriaethau Athletau'r dyfodol.

## Cymhwyster Athletwyr

- 5 Rhaid i ddarpar aelodau'r tîm fodloni meini prawf cymhwysedd Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad (CGF) a amlinellir yn Llawlyfr Dethol Gemau'r Gymanwlad Cymru (ar gael ar wefan Tîm Cymru yma; <http://teamwales.cymru/en/> **UPDATE LINK**) a'r meini prawf perthnasol o fewn Cyfansoddiad Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad (CGF) (ar gael ar wefan CGF yma; <http://www.thecgf.com/about/constitution.pdf> **UPDATE LINK**)
- 6 Pan nad yw darpar aelodau'r tîm yn bodloni'r meini prawf uchod, dim ond os bydd goddefeb wedi ei rhoi gan y CGF ymlaen llaw y bydd yn bosib iddynt gael eu henwebu i gael eu dewis.

## Fformat cystadlu'r Gemau

- 7 Y cystadlaethau canlynol a gynhelir yn rhaglen Athletau Gemau'r Gymanwlad 2022.

### Dynion

100m, 100m T11/12, 100m T37/38, 100m T45-47, 200m, 400m, 800m, 1500m, 1500m T53/54, 5000m, 10000m, Marathon, Marathon T53/54, Ras Gerdded 10,000m, Ras Ffos a Pherth 3000m, Clwydi 400m, Clwydi 110m, Ras Gyfnewid 4 x 100m, Ras Gyfnewid 4 x 400m, Naid Hir, Naid Driphlyg, Naid Uchel, Naid Bolyn, Taflu Maen, Disgen, Disgen F42-44 / F61-64, Morthwyl, Gwaywffon, Decathlon

### Menywod

100m, 100m T33/34, 100m T37/38, 100m T53/54, 200m, 400m, 800m, 1500m, 1500m T53/54, 5000m, 10000m, Marathon, Marathon T53/54, Ras Gerdded 10,000m, Ras Ffos a Pherth 3000m, Clwydi 400m, Clwydi 100m, Ras Gyfnewid 4 x 100m, Ras Gyfnewid 4 x 400m, Naid Hir, Naid Driphlyg, Naid Uchel, Naid Bolyn, Taflu Maen, Taflu Maen F55-57 Disgen, Disgen F42-44 / F61-64, Morthwyl, Gwaywffon, Heptathlon

## Meini Prawf Enwebu

- 8 Mae Gemau'r Gymanwlad Cymru (CGCW) yn ei gwneud yn ofynnol i athletwyr allu gorffen yn y chwech uchaf neu allu gwella'r potensial o ennill Tîm i ennill cystadleuaeth yng Ngemau'r Gymanwlad 2022. Mae cynnwys yr adran hon yn adlewyrchu ac yn cefnogi hyn.
- 9 Er mwyn cael eu henwebu ar gyfer proses ddethol y CGCW, rhaid i'r athletwyr gystadlu ym Mhencampwriaethau Trac a Maes Athletau Cymru 2021.

*Sylwer: Nid yw hyn yn berthnasol i'r 10,000m, Marathon, Cerdded 10,000m na disgyblaethau'r Campau Cyfun, na fyddant yn cael eu cynnwys ym Mhencampwriaethau Trac a Maes Athletau Cymru 2021*

Os na fyddant wedi cystadlu yn y Pencampwriaethau hynny, rhaid cael caniatâd ymlaen llaw i gymryd rhan gan y Pennaeth Hyfforddi a Pherfformiad, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y rhoddir y caniatâd hwnnw.

10 Mae nifer yr athletwyr y gellir eu cynnig ar gyfer disgyblaeth wedi ei nodi gan Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad (CGF) fel a ganlyn:

(i) ceir cynnig hyd at dri athletwr ar gyfer disgyblaeth unigol

(ii) ceir cynnig hyd at chwe athletwr ar gyfer ras gyfnewid

11 Er mwyn cael eu **hystyried i gael eu henwebu**, rhaid i athletwyr fod wedi cyrraedd safon benodol.

Ystyrir bod perfformiad yn cyrraedd safon enwebiad dilys Athletau Cymru os:

(i) bydd yn bodloni neu'n rhagori ar y lefel a ddangosir yn Nhabl 1.0

(ii) caiff ei gyflawni yn ystod y cyfnod Cymhwyso (paragraff 12)

(iii) caiff ei gyflawni mewn Cystadleuaeth Gymwysterol (paragraff 13); a

(iv) bydd yn bodloni'r meini prawf ychwanegol (paragraff 14)

Tabl 1.0

<b>Menywod</b>	<b>Cystadleuaeth</b>	<b>Dynion</b>
11.35	100m	10.23
23.30	200m	20.60
52.25	400m	45.75
2.01.30	800m	1.46.50
4.08.30	1500m	3.39.00
15.30.00	5000m	13.33.00
32.30.00	10000m	28.30.00
9.49.50	Ff/Ph 3000m	8.34.30
56.90	Cl 400m	50.00
13.25	Cl 100 / 110m	13.65
6.55	Naid Hir	7.90
13.55	Naid Driphlyg	16.50
1.85	Naid Uchel	2.22
4.25	Naid Belyn	5.30
16.75	Taflu Maen	19.00
55.00	Disgen	60.50
62.00	Morthwyl	69.00
55.00	Gwaywffon	76.00
5650	Heptathlon / Decathlon	7600
46.00.00	Ras Gerdded 10,000m	41.30.00
2.35.30	Marathon	2.15.30
44.00	4 x 100m	39.00
3.31.90	4 x 400m	3.03.50

Sylwer: Nid yw'r cystadlaethau Chwaraeon Para wedi eu cynnwys yma gan y byddant yn cael eu dethol yn ôl system gwota – fel yr amlinellir ym Mharagraff 19

- (i) Mae safonau perfformiad yn seiliedig ar orffen yn y chwech uchaf yn Ngemau'r Gymanwlad yn y tair blynedd ddiwethaf ac yn cyd-fynd â Thraciwr Perfformiad Chwaraeon Cymru.
- (ii) Sylwer: Gellir dewis timau Ras Gyfnewid ar sail set amgen o feini prawf fel yr amlinellir ym mharagraff 18.
- (iii) Os bydd unrhyw amgylchiadau'n effeithio'n wirioneddol ar allu Athletau Cymru i enwebu Tîm yn deg, mae Athletau Cymru'n cadw'r hawl i ddiwygio'r Safonau Perfformiad ar y cyd â Thîm Cymru.

12 Rhaid i'r perfformiadau cymhwysol gael eu cyflawni o fewn y Cyfnod Cymhwyso a ddiffinnir fel a ganlyn:

**Rhwng: 00.00 (GMT) ar y 1<sup>af</sup> o Ionawr 2021  
a: 23.59 (GMT) ar y 24<sup>ain</sup> o Ebrill 2022**

13 Rhaid i'r perfformiad cymhwysol gael ei gyflawni yn un o'r cystadlaethau canlynol:

- (i) Unrhyw gystadleuaeth a drefnir neu a gymeradwyir ac a ardystir gan World Athletics, ei gymdeithasau mewn ardaloedd neu ei ffederasiynau aelod.
- (ii) Trwydded United Kingdom Athletics (UKa) Lefel 2 neu uwch.
- (iii) Yn achos Marathonau, rhaid i'r perfformiadau gael eu cyflawni ar gyrsiau sydd wedi eu hachredu gan yr IAAF.

Dim ond os cadarnheir dilysrwydd y perfformiad gan swyddogion ar y safon briodol y rhoddir ystyriaeth i unrhyw berfformiad cystadleuol tu allan i'r cystadlaethau hyn ac os caiff y perfformiad hwnnw ei dderbyn yn ôl disgrisiwn y Panel Enwebu.

14 Rhaid i berfformiadau cymhwysol fodloni pob un o'r meini prawf ychwanegol hyn (o reolau Cystadlu Athletau'r Byd):

<http://www.worldathletics.org/aboutiaaf/documents/technical> [UPDATE LINK](#) ) :

- (i) ni dderbynnir perfformiadau a gynorthwyir gan y gwynt
- (ii) ni dderbynnir perfformiadau a amserir â llaw i ddibenion cymhwyso, ond mae'n **bosib** y derbynnir hwy os bydd amseru electronig yn methu
- (iii) derbynnir perfformiadau dan do ym mhob cystadleuaeth
- (iv) dan amgylchiadau penodol, mae'n bosib y derbynnir perfformiadau mewn cystadlaethau cymysg rhwng athletwyr gwrywaidd a benywaidd, a gynhelir yn gyfan gwbl mewn stadiwm
- (v) ni dderbynnir perfformiadau 100m, 200m, 400m, clwydi 110m/100m a chlwydi 400m ar uchder o 950m neu uwch
- (vi) ym mhob cystadleuaeth faes, dim ond yr un treial gorau o un gyfres gystadlu a dderbynnir
- (vii) bydd amryfal berfformiadau mewn Pencampwriaethau swyddogol, ar lefel Genedlaethol Cymru neu uwch, a gyflawnir yn yr un ddisgyblaeth ar yr un diwrnod i gyd yn cael eu cyfrif.

Mewn achosion eraill, dim ond un perfformiad y dydd a gyfrir, fel a ganlyn:

- (i) mewn cystadlaethau trac, dim ond canlyniad swyddogol cyflymaf y dydd a gyfrir
- (ii) mewn cystadlaethau taflu, dim ond canlyniad cystadleuaeth gyntaf y dydd a gyfrir
- (iii) mewn cystadlaethau neidio llorweddol, dim ond cystadleuaeth gyntaf y dydd a gyfrir oni bai bod pob marc a gyflawnir gan yr athletwr wedi ei gynorthwyo gan y gwynt, ac os felly, cyfrir ail gystadleuaeth a gynhelir dan amodau gwell
- (iv) mewn cystadlaethau neidio fertigol, dim ond canlyniad cystadleuaeth gyntaf y dydd a gyfrir, oni bai bod yn rhaid rhoi'r gorau i'r gystadleuaeth am resymau diogelwch; mewn achos o'r fath cyfrir ail gystadleuaeth a gynhelir dan amodau mwy diogel

15 Llywodraethir isafswm oedran yr athletwyr y caniateir iddynt gystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad 2022 gan reolau Athletau'r Byd, fel a ganlyn

- (i) Athletwyr lau: Caiff unrhyw athletwr sy'n 18 neu'n 19 oed ar y 31<sup>ain</sup> o Ragfyr ym mlwyddyn y gystadleuaeth (a aned yn 2003 neu 2004) gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth ar wahân i'r Marathon
- (ii) Athletwyr lau Gwrywaidd: caiff unrhyw athletwr sy'n 16 neu'n 17 oed ar y 31<sup>ain</sup> o Ragfyr ym mlwyddyn y gystadleuaeth (a aned yn 2005 neu 2006) gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth ar wahân i'r cystadlaethau taflu, y Decathlon, y 10000m a'r Marathon
- (iii) Athletwyr lau Benywaidd: caiff unrhyw athletwr sy'n 16 neu'n 17 oed ar y 31<sup>ain</sup> o Ragfyr ym mlwyddyn y gystadleuaeth (a aned yn 2005 neu 2006) gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth ar wahân i'r 10000m a'r Marathon
- (iv) Athletwyr o dan 16: ni cheir cynnig unrhyw athletwyr sy'n ieuengach na 16 oed ar y 31<sup>ain</sup> o Ragfyr ym mlwyddyn y gystadleuaeth (a aned yn 2007 neu'n hwyrach)

16 Wrth gyflwyno eu henwebiadau i CGCW bydd panel enwebu Athletau Cymru'n defnyddio'r meini prawf canlynol

Cystadlaethau Unigol

- (i) bydd unrhyw athletwr cymwys sydd wedi cyflawni safon enwebu ddilys (Tabl 1.0), o fewn y cyfnod cymhwys (paragraff 12), mewn cystadleuaeth gydnabyddedig (paragraff 13) ac y mae ei berfformiad yn bodloni'r meini prawf (paragraff 14), yn **cael ei enwebu'n awtomatig** gan Athletau Cymru i CGCW.

*Sylwer nad yw hyn yn golygu sicrwydd o gael eu dewis, fel yr amlinellir ym mharagraff 2*

- (ii) yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, **caiff** y panel enwebu ystyried enwebu athletwr nad yw wedi cyrraedd y safon berthnasol, ond y credant yn gryf fod ganddo/ganddi'r potensial i ennill medal yn y Gemau, ond na fu'n bosib iddo/iddi gyrraedd y safon berthnasol oherwydd sefyllfa annisgwyl (anaf tymor hir ac ati). Rhaid i'r dystiolaeth i gefnogi enwebiad dan amgylchiadau o'r fath fod yn llethol.
- (iii) yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, **caiff** y panel ystyried enwebu athletwr sy'n datblygu nad yw wedi cyrraedd y safon enwebu berthnasol, ond y credant yn gryf fod ganddo/ganddi'r potensial i ennill medalau ym mhencampwriaethau'r dyfodol. Rhaid i'r dystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad llwybr datblygu talent fod yn llethol.

### **Polisi Dethol ar gyfer Marathon Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022.**

17 Nod y broses ddethol ar gyfer y Marathon yw cynyddu'r cyfle i athletwyr berfformio ar eu gorau yn 2022.

Mae'r broses ddethol wedi'i chynllunio i gefnogi enwebu athletwyr ar sail y gallu i fodloni'r meini prawf canlynol.

- (i) cyrhaeddodd yr athletwr y safon enwebu ofynnol.
- (ii) cyrhaeddodd yr athletwr y safon enwebu ofynnol yn y ffenestr flaenoriaeth.
- (iii) cyrhaeddodd yr athletwr y safon enwebu cyn y dyddiad enwebu.
- (iv) profodd yr athletwr ei ffitrwydd ar ôl cyrraedd y safon enwebu yn y ffenestr baratoi flaenoriaeth.
- (v) mae'r athletwr/athletwyr a enwebir yn cael y ffenestr baratoi fwyaf sy'n bosib cyn cyfnod y gwersyll paratoi / Gemau'r Gymanwlad 2022.

Mae'r polisi Marathon wedi ei gynllunio gyda 3 ffenestr flaenoriaeth; caiff y ffenestri hyn eu pwysoli yn ôl trefn yr amser sy'n arwain at Gemau'r Gymanwlad 2022. Pan enwebir yr athletwyr, defnyddir y ffenestri blaenoriaeth pwysedig hyn fel rhan o'r broses o werthuso'r enwebiadau.

### **Ffenestr Flaenoriaeth Perfformiad Un. 01 Ionawr 2021 – 31 Rhagfyr 2021.**

Cynlluniwyd y ffenestr hon er mwyn caniatáu ar gyfer y perfformiad a'r amser adfer/paratoi gorau i athletwyr cyn marathon mewn gemau mawr. Bydd angen tystiolaeth o ffitrwydd cyn y broses enwebu. Cytunir ar y protocol ffitrwydd gan Arweinydd y Tîm a Ffisiotherapydd Tîm Athletau Cymru.

## **Ffenestr Flaenoriaeth Perfformiad Dau.**

### **01 Ionawr 2022 – 28 Chwefror 2022**

Bydd yr athletwyr yn cyflawni Safon Enwebu yn yr ail ffenestr flaenoriaeth hon; mae'r broses wedi ei chynllunio er mwyn caniatáu amser ar gyfer adferiad / paratoi yn ogystal â thystiolaeth o ffitrwydd cyn y broses enwebu. Cytunir ar y protocol ffitrwydd gan Arweinydd y Tîm a Ffisiotherapydd Tîm Athletau Cymru.

## **Ffenestr Flaenoriaeth Perfformiad Tri.**

### **01 Mawrth 2022 – 24 Ebrill 2022**

Bydd yr athletwyr yn cyflawni Safon Enwebu yn y drydedd ffenestr flaenoriaeth hon. Yng ngoleuni'r amserlen fer cyn Gemau'r Gymanwlad 2022, mae risg yn ffactor yn y ffenestr derfynol hon y bydd yn rhaid i'r panel enwebu ei ystyried ar sail y canlynol:

- (i) dim llawer o amser adfer.
- (ii) dim llawer o amser i baratoi ar gyfer marathon mewn gemau mawr.

## **18 Ras Gyfnewid**

- (i) Byd tîm ras gyfnewid sydd wedi cyrraedd safon ddilys (Tabl 1.0), o fewn y cyfnod cymhwyso (paragraff 12), mewn cystadleuaeth gydnabyddedig (paragraff 13) ac y mae eu perfformiad yn bodloni'r meini prawf ym mharagraffau 14, yn cael eu **henwebu'n awtomatig** gan Athletau Cymru i CGCW. Sylwer nad yw hyn yn golygu sicrwydd y bydd y tîm yn cael ei ddewis, fel yr amlinellir ym mharagraff 2
- (ii) Yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, **caiff** y panel enwebu ystyried enwebu tîm ras gyfnewid nad yw wedi cyrraedd y safon berthnasol eto, ond y credant yn gryf fod iddo'r potensial o gyflawni nod y polisi (paragraff 4). Byddai hyn yn digwydd **fel arfer** pan fo dau neu fwy o athletwyr unigol sy'n rhan o dîm y ras gyfnewid wedi eu henwebu ar gyfer cystadlaethau unigol a phan fo'r athletwyr unigol eraill a fyddai'n llenwi gweddill y lleoedd yn y tîm ar safon resymol debyg i'w safonau cystadlu unigol.

Dylid nodi bod yr enwebiad gan Athletau Cymru i CGCW yn cynrychioli enwebiad tîm – nid athletwyr unigol. Y panel enwebu a CGCW sy'n dewis cyfansoddiad y tîm hwnnw ac mae'n bosib na fydd yn cynnwys pob un o'r athletwyr oedd yn rhedeg yn y timau yr ystyriwyd eu perfformiadau cymhwyso fel rhan o'r broses enwebu. Bydd y broses o enwebu athletwyr unigol i gefnogi timau ras gyfnewid yn seiliedig ar y ffactorau canlynol

- (i) agosatrwydd perfformiad yr athletwr i'r safon enwebu o fewn y cyfnod cymhwyso (yn y gystadleuaeth/cystadlaethau unigol cyfatebol)
- (ii) cysondeb perfformiadau'r athletwr, a ddangosir trwy berfformio ar yr un safon neu safon debyg o fewn y cyfnod cymhwyso (yn y gystadleuaeth/cystadlaethau unigol cyfatebol)



- (iii) safle ym Mhencampwriaethau Cymru 2021 (yn y gystadleuaeth/cystadlaethau unigol cyfatebol)
- (iv) sgiliau penodol yr athletwr ar gyfer ras gyfnewid, yn unol â phenderfyniad ac argymhelliad hyfforddwyr ras gyfnewid Athletwyr Cymru
- (v) presenoldeb yr athletwr mewn sesiynau hyfforddi'r rhaglen ras gyfnewid, a'i gefnogaeth iddynt
- (vi) cofnodion cystadleuol pen wrth ben gydag athletwyr cymwys eraill
- (vii) cyflwr a ffitrwydd presennol (gellir gofyn i athletwyr gael archwiliadau iechyd a ffitrwydd cyn cael eu henwebu i'r CGCW neu ar unrhyw adeg wedi hynny cyn y Gemau, yn ôl yr angen)
- (viii) potensial unigol yr athletwr yn yr hirdymor a budd potensial mynychu Gemau'r Gymanwlad 2022 ar gyfer cefnogi perfformiad a allai ennill medal yn y dyfodol
- (ix) unrhyw ffactor/ffactorau eraill a fydd, ym marn y panel, yn effeithio ar allu athletwr i gefnogi tîm y ras gyfnewid yn y Gemau

Os dewisir athletwr fel rhan o dîm ras gyfnewid, ond na chaiff ei ddewis mewn digwyddiad unigol, ei flaenoriaeth bob amser fydd cefnogi'r tîm ras gyfnewid wrth geisio cyflawni nod y polisi (paragraff 4). Fodd bynnag, yn ôl disgresiwn llwyr y panel, **caiff** athletwr nad yw eisoes wedi'i enwebu fel unigolyn ei enwebu mewn digwyddiad unigol, os bernir fod hynny er budd gorau tîm y ras gyfnewid a'r athletwr dan sylw.

Yn nodweddiadol, byddai Athletau Cymru'n ceisio enwebu pum athletwr unigol fel rhan o dîm ras gyfnewid er mwyn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer "pedwar streic" pe bai anaf, salwch neu unrhyw ffactorau eraill a fyddai'n atal un o'r "pedwar streic" rhag cystadlu yn un o'r rowndiau. Fodd bynnag, mae'n bosib y gellid enwebu dim ond pedwar, neu hyd at chwe athletwr unigol fel rhan o dîm ras gyfnewid.

Os gorfodir un neu fwy o athletwyr "pedwar streic" y ras gyfnewid i dynnu'n ôl o dîm y Gemau cyn cychwyn i'r Gemau (am unrhyw reswm) yna, penderfyniad CGCW, mewn ymgynghoriad ag Athletau Cymru, fydd tynnu tîm y ras gyfnewid yn ôl neu beidio bryd hynny.

19 Bydd athletwyr Chwaraeon Para yn cael gwahoddiad i gystadlu gan y CGF, yn seiliedig ar system gwota a fabwysiadwyd gan y CGF yn unol â safleoedd Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol y Gymanwlad. Fodd bynnag, rhaid i athletwyr ddangos safon gyson o fewn y cyfnod cymhwyso (paragraff 12) er mwyn cael eu henwebu gan Athletau Cymru. Oherwydd nifer cyfyngedig y cyfleoedd sydd ar gael i gystadlu, byddai disgwyl i athletwyr a enwebir ddangos eu bod mewn cyflwr a ffitrwydd gwirioneddol gystadleuol.

- 20 Rhaid i athletwyr Chwaraeon Para fod â Thrwydded IPC gyfredol a Dosbarthiad IPC parhaus.
- 21 Yr athletwr / hyfforddwr sy'n gyfrifol am ddarparu tystiolaeth o berfformiad
- 22 Pan fydd athletwr yn bodloni'r meini prawf enwebu mewn un gystadleuaeth, mae posibilrwydd o hyd y bydd yn cael ei enwebu ar gyfer ail gystadleuaeth, ond byddai disgwyl iddo flaenoriaethu'r gystadleuaeth y cyflawnwyd y meini prawf enwebu ynddi.
- 23 Mewn amgylchiadau a fernir yn briodol gan Arweinydd y Tîm, gellir gofyn i athletwr wneud prawf ffitrwydd cyn yr enwebiad i CGCW. Mae manylion penodol am y prawf hwn i'w gweld yn Atodiad 3.

### **Y Broses Enwebu ac Apeliadau**

- 24 Bydd Panel Enwebu Birmingham 2022 Athletau Cymru (fel y manylir yn Atodiad 1), a benodir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr, yn enwebu athletwyr i CGCW yn unol â'r meini prawf enwebu a nodir uchod. Os bydd enwebu unrhyw unigolyn neu dîm yn achosi gwrthdaro buddiannau i unrhyw aelod o'r panel enwebu, rhaid i'r aelod hwnnw ddatgan hynny i aelodau eraill y panel enwebu ac ni fydda yn cael pleidleisio mewn perthynas ag enwebu'r unigolyn neu'r tîm dan sylw.
- 25 Bydd cyfnod cymhwyso Athletau Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 yn cychwyn ac yn gorffen fel y manylir ym mharagraff 12.
- 26 Bydd panel enwebu Athletau Cymru yn cyfarfod ar y 25<sup>ain</sup> o Ebrill 2022 er mwyn trafod a chadarnhau enwebiadau i CGCW.
- 27 Ar ôl i banel enwebu Athletau Cymru gyfarfod fel y rhestrir ym mharagraff 26, bydd aelod o'r panel enwebu yn cysylltu â'r athletwyr a enwebwyd gan y panel i CGCW dros y ffôn ac yn gyfrinachol. Gwneir hyn o fewn 24 awr (h.y. erbyn 9pm ar y 26<sup>ain</sup> o Ebrill 2022) ar ôl cyfarfod y panel enwebu.
- 28 Dylai'r athletwyr nad ydynt yn derbyn galwad ffôn gan aelod o'r panel enwebu o fewn 24 awr (h.y. erbyn 9pm ar y 26<sup>ain</sup> o Ebrill 2022), ystyried nad ydynt wedi eu cynnwys ar y rhestr o enwebiadau i CGCW. Ceir cadarnhad o hyn drwy gysylltu â'r Pennaeth Hyfforddi a Pherfformiad (fel y manylir yn Atodiad 2). Bydd gan yr athletwyr hynny nad ydynt wedi eu cynnwys yn y rhestr o enwebiadau i CGCW hawl i apelio (i Athletau Cymru) y diffyg enwebiad, os bydd yr apêl yn cydymffurfio â'r manylion a amlinellir yn Atodiad 2).
- 29 Ystyrir apeliadau gan Banel Apeliadau Athletau Cymru (fel y manylir yn Atodiad 1 a 2) ar y 29<sup>ain</sup> o Ebrill 2022. Bydd pob athletwr sydd wedi apelio yn cael gwybod beth yw penderfyniad y Panel Apeliadau dros y ffôn ac yn ysgrifenedig. Yn y lle cyntaf, bydd y rhai sy'n apelio yn cael gwybod am y penderfyniad dros y ffôn rhwng 16.00 ac 20.00 ar y 29<sup>ain</sup> o Ebrill 2022. Byddant yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig ar ôl hynny.

- 30 Bydd yn rhaid i Athletau Cymru ddarparu gwybodaeth gefnogol ar gyfer unrhyw Enwebiad i Dîm Cymru. Bydd Panel Dethol Tîm Cymru yn craffu ar y wybodaeth hon a bydd yn rhan o'u penderfyniad mewn perthynas â dewis neu beidio â dewis aelodau o Dîm Gemau'r Gymanwlad 2022. Bydd pob gwybodaeth ffeithiol a gyflwynir yn cael ei chadarnhau gyda phob athletwr cyn cael ei chyflwyno i Dîm Cymru a bydd angen i'r Athletwr gadarnhau (yn ysgrifenedig / dros e-bost) bod y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno yn gywir / yn ffeithiol.
- 31 Fel rhan o'r Broses Enwebu / Ddethol bydd angen i'r athletwyr roi caniatâd i Athletau Cymru / Tîm Cymru brosesu categorïau Data arbennig, yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Bydd unrhyw geisiadau am y caniatâd penodol hwn gan yr athletwr yn cael ei wneud o fewn amser rhesymol a bydd y cais yn nodi rhesymeg / pwrpas casglu'r data.
- 32 Bydd y rhestr arfaethedig o enwebeion yn cael ei chyflwyno i CGCW ar y 29<sup>ain</sup> o Ebrill 2022.
- 33 Bydd panel dethol CGCW yn cyfarfod i ystyried yr enwebiadau ar y 4<sup>ydd</sup> o Fai 2022 ac wedyn yn gwneud argymhellion i Fwrdd CGCW, a fydd yn cadarnhau'r tîm a ddewisir.
- 34 Bydd Athletau Cymru'n cysylltu â'r athletwyr sydd wedi eu henwebu i roi gwybod a ydynt wedi eu dewis neu beidio erbyn y 6<sup>ed</sup> o Fai 2022, dros y ffôn ac yn ysgrifenedig.
- 35 Mae'r hawl i apelio at CGCW am nad yw athletwr wedi ei ddewis yn unol â'r polisi y manylir arno yn Llawlyfr Dewis CGCW.
- 36 Bydd CGCW yn cadarnhau'r dewisiadau terfynol i'r tîm Athletau ar y 18<sup>fed</sup> o Fai 2022.
- 37 Rhaid cadw enwebiadau'n gyfrinachol hyd nes i CGCW gwblhau eu proses ddethol. Ni chaniateir i athletwyr a enwebir / na enwebir wneud cyhoeddiad ar unrhyw ffurf i'r cyfryngau nac i'r cyhoedd (gan gynnwys ar unrhyw blatfformau cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook) yn glŷn â'r posibilrwydd o gadarnhad eu bod wedi/heb eu dewis cyn i gyhoeddiad swyddogol y tîm gael ei wneud gan CGCW am y dewis. Gallai torri'r cymal hwn effeithio ar hawl yr athletwr i gael ei ddewis neu i apelio.
- 38 Mae dewis terfynol i dîm y Gemau yn dibynnu ar dderbyn y wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan CGCW, megis y ffurflen Cymhwysedd CGF a'r Cytundeb Aelod Tîm.
- 39 Bydd manylion am y sesiwn frifio / ffitio gwisg orfodol y Gemau yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref 2020.

### **Dad-enwebu**

- 40 Gall dad-enwebu o'r rhestr o athletwyr a gyflwynir i CGCW (a/neu athletwyr a ddewisir gan CGCW (a/neu athletwyr a ddewisir gan CGCW ar ôl eu henwebu) ddigwydd o ganlyniad i:

- (i) Methu â chadw at god ymddygiad athletwyr neu'r cytundeb Aelod Tîm
- (ii) Methu â bodloni'r protocolau profi ffitrwydd y cytunwyd arnynt (gweler Paragraff 37 ac Atodiad 3).
- (iii) Fel y manylir ym mharagraff 16, gellir dad-enwebu tîm ras gyfnewid ar ôl i un neu fwy o'r athletwyr "pedwar streic" dynnu'n ôl.

### **Dad-ddewis athletwyr a dewis eilwyr**

41 Ar unrhyw adeg ar ôl i'r enwebiad ddigwydd a chyd i Dîm Cymru gael ei gofrestru'n ffurfiol yn y Gemau, mae Athletau Cymru'n cadw'r hawl i dynnu enwebiad athletwr yn ôl os bydd yn tybio, ym marn resymol Arweinydd Tîm Athletau Cymru ac ar y cyd â Phrif Ffisiotherapydd Athletau Cymru, bod yna fater a allai effeithio'n rhesymol ar botensial athletwr i gyflawni perfformiadau o fewn **10% neu lai** i gyfartaledd eu 5 perfformiad gorau yn ystod y cyfnod cymhwyso perthnasol a nodir ym **mharagraff 2.7**, yn eu cystadleuaeth yn y Gemau.

Mae'r broses o ddad-ddewis athletwr o'r Gemau yn dibynnu ar yr union amseriad mewn perthynas â chofrestriad swyddogol Tîm Cymru i'r Gemau – h.y. y dyddiad y caiff Tîm Cymru ei gofrestru'n swyddogol ar gyfer y Gemau. Ar hyn o bryd mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer y 29<sup>ain</sup> o Fehefin 2022.

Os bydd pryderon o'r fath yn bodoli, ymgwymerir â'r broses yn unol ag Atodiad 3.

### **Penodi Staff Tîm**

42 Bydd Arweinydd Tîm a Rheolwr Tîm Athletau Cymru'n cael eu cadarnhau erbyn **XX XXXX** 2020. Disgwylir y bydd swyddi Arweinydd Tîm a Rheolwr Tîm yn cael eu dilysu gan Fwrdd Athletau Cymru ar yr un pryd â'r Polisi Enwebu. Bydd y nifer terfynol o staff tîm Athletau Cymru a fydd yn mynychu'r Gemau (Hyfforddwyr Tîm) yn dibynnu yn y pen draw ar faint a chyfansoddiad y tîm, ac yn cael ei benderfynu gan CGCW mewn ymgynghoriad ag Athletau Cymru ar ôl i'r tîm terfynol gael ei ddewis.

### **Force Majeure**

43 Golyga "Force Majeure" unrhyw weithred, digwyddiad, esgeulustra, achos neu amgylchiadau sydd tu hwnt i reolaeth resymol Athletau Cymru, Tîm Cymru a Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw streic, cloi allan neu weithredu diwydiannol arall, unrhyw gynnwrf neu anhrefn sifil, terfysg, goresgyniad, rhyfel neu weithgaredd terfysgol neu fygythiad o ryfel neu weithgaredd terfysgol, unrhyw gamau a gymerir gan awdurdod llywodraethol neu gyhoeddus o unrhyw fath (gan gynnwys, heb gyfyngiad, peidio â rhoi caniatâd, eithriad, cymeradwyaeth neu gliriad), unrhyw dân, ffrwydrad, storm, llifogydd, daeargryn, ymsuddiant, epidemig, pandemig neu drychineb ffisegol naturiol arall. Os bydd Force Majeure o'r fath yn effeithio ar weithrediad y Polisi Enwebu Hwn, penderfyniad Athletau Cymru'n unig, mewn ymgynghoriad â Thîm

Cymru, fydd galw am unrhyw ddiwygiadau rhesymol yn unol ag egwyddorion, strategaeth a chenhadaeth y polisi enwebu hwn.

## **Atodiad 1**

### Panelau Enwebu ac Apeliadau

*Bydd yr unigolion canlynol a benodir yn cadarnhau'r enwebiadau a wneir gan Athletau Cymru i CGCW ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2022:*

#### **Y Panel Enwebu;**

- (i) *Arweinydd Tîm Athletau Birmingham 2022\**
- (ii) *Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr, Prif Swyddog Gweithredol Athletau Cymru*
- (iii) *Aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr (Cyfarwyddwr yr Is-grŵp Perfformiad)*
- (iv) *Rheolwr Academi, Chwaraeon Anabledd Cymru*
- (v) *Aelod o'r Is-Grŵp Perfformiad – (Sylwedydd Annibynnol heb hawliau pleidleisio)*

*\*Bydd yr Arweinydd Tîm yn gweithredu fel Cadeirydd y Panel Enwebu ac ef/hi fydd â'r bleidlais fwrw pan fo angen.*

Os bydd gan unrhyw aelod o'r Panel Enwebu wrthdaro personol cysylltiedig ag unrhyw benderfyniad ynghylch enwebiad bydd hyn yn cael ei nodi, a gofynnir iddo/iddi adael y cyfarfod pan fydd penderfyniad ynglŷn ag enwebu neu beidio ag enwebu'n digwydd os bernir bod hynny'n angenrheidiol.

#### **Panel Apeliadau;**

- (i) *Prif Swyddog Gweithredol Athletau Cymru \**
- (ii) *Aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr*
- (iii) *Annibynnol*
- (iv) *Cynghorydd Perfformiad – Chwaraeon Cymru (Sylwedydd Annibynnol nad yw'n Pleidleisio)*

*\*Prif Swyddog Gweithredol Athletau Cymru fydd Cadeirydd y Panel Apeliadau ac ef/hi fydd â'r bleidlais fwrw pan fo angen.*

*Sylwer: Bydd y panel apeliadau'n cynnwys 4 unigolyn (3 sy'n pleidleisio) sy'n annibynnol ar y panel enwebu*

Os bydd gan unrhyw aelod o'r Panel Apeliadau wrthdaro personol cysylltiedig ag unrhyw benderfyniad ynghylch enwebiad bydd hyn yn cael ei nodi a gofynnir iddo/iddi adael y cyfarfod

pan fydd penderfyniad ynglŷn ag enwebu neu beidio ag enwebu'n digwydd os bernir bod hynny'n angenrheidiol.

## Atodiad 2

### Proses Apeliadau

Os nad yw athletwr wedi derbyn galwad ffôn erbyn 9pm ar y 26<sup>ain</sup> o Ebrill 2022 yn eu hysbysu o'u henwebiad i CGCW, dylai gymryd nad yw wedi ei enwebu. Os bydd athletwr yn dymuno cael cadarnhad o hyn, dylai gysylltu â'r Arweinydd Tîm (XXXXXXXXXXXXXXXXXX) ar unwaith mewn e-bost XXXXXXXXXXXXXXXXXXXX. Mae gan unrhyw athletwr nad yw wedi ei enwebu yr hawl i apelio'r penderfyniad hwnnw ac i'r apêl honno gael ei hystyried gan banel annibynnol. Dylid unrhyw apêl gael ei gwneud ar sail gwall ffeithiol neu broses anghywir.

Rhaid i unrhyw apêl yn erbyn y penderfyniad(au) a wneir gan Banel Enwebu Athletau Cymru ar sail gwall ffeithiol neu broses anghywir, gael ei chyflwyno i'r "Panel Apeliadau", yng ngofal Athletau Cymru, Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Heol Lecwydd, Caerdydd, CF11 8AZ neu drwy e-bost i XXXXXXX@welshathletics.org yn ddim hwyrach na 14.00 ar yr 27<sup>ain</sup> o Ebrill 2022. Amlinellir y broses hon isod:

- (i) *Caiff athletwr ("yr Apelydd") wneud apêl yn erbyn penderfyniad Panel Enwebu Athletau Cymru i Athletau Cymru, Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Heol Lecwydd, Caerdydd, CF11 8AZ*
- (ii) *Rhaid i'r apelydd gyflwyno apêl yn ysgrifenedig ("Hysbysiad o Apêl") i'r Panel Apeliadau yng Ngofal Athletau Cymru, Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Heol Lecwydd, Caerdydd, CF11 8AZ neu trwy e-bost i [XXXXXXXX@welshathletics.org](mailto:XXXXXXXX@welshathletics.org) yn ddim hwyrach na 14.00 ar 27<sup>ain</sup> o Ebrill 2022. Dylai'r Hysbysiad o Apêl nodi'n llawn ar ba sail y mae'r Apelydd yn dymuno apelio a'r rhwymedi a geisir, a dylid cyflwyno hynny ar y cyd â'r holl ddogfennaeth y mae'r Apelydd yn dibynnu arni i gefnogi'r Apêl. Wrth gyflwyno Hysbysiad o Apêl, mae'n ofynnol i'r Apelydd anfon taliad o £200 i Athletau Cymru a gadwir ar gyfrif hyd nes y penderfynir ar ganlyniad yr Apêl.*

#### *Taliadau Electronig*

*Enw'r Cyfrif: Welsh Athletics Limited*

*Cod Didoli: 30-91-68*

*Rhif y Cyfrif: 00686618*

- (iii) *Bydd y Panel Apeliadau'n ystyried yr apeliadau ar y 29<sup>ain</sup> o Ebrill 2022. Bydd yr Apelyddion yn cael gwybod y penderfyniad dros y ffôn rhwng 16.00 a 20.00 ar y 29<sup>ain</sup> o Ebrill 2022. Byddant hefyd yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig ar ôl hynny.*

(iv) *Mae penderfyniad y Panel Apeliadau'n derfynol.*

(v) *Costau.*

(vi) *Yr Apelydd fydd yn talu costau apêl aflwyddiannus - £200*

(vii) *Mewn apeliadau llwyddiannus bydd y taliad sy'n cael ei ddal yn cael ei ddychwelyd.*



## Atodiad 3

### **Protocolau a Gweithdrefnau Salwch / Anaf / Profi Ffitrwydd**

Ar unrhyw adeg cyn y Gemau, mae Athletau Cymru ar y cyd â Thîm Cymru'n cadw'r hawl i dynnu enwebiad athletwr yn ôl os bydd ganddo/ganddi, ym marn resymol Arweinydd Tîm Athletau Cymru a Phrif Ffisiotherapydd Athletau Cymru, anaf / salwch a allai effeithio ar botensial yr athletwr i gyflawni perfformiadau sydd o fewn 10% neu lai i'w berfformiadau cymhwysu cyfartalog (5 perfformiad gorau yn y ffenestr gymhwysu) yn eu cystadleuaeth yn y Gemau.

Pan fydd pryderon o'r fath yn bodoli, bydd y prosesau canlynol yn cael eu dilyn:

#### **Atodiad 3.1 Cyfnod enwebu i Dîm Cymru**

Os oes pryder rhesymol ynglŷn â photensial athletwr i gyflawni perfformiadau sydd o fewn 10% neu lai i'w berfformiadau cymhwysu cyfartalog (5 perfformiad gorau yn y ffenestr gymhwysu / enwebu) yn y cyfnod cyn y Gemau, bydd Arweinydd Tîm Athletau Cymru a Phrif Ffisiotherapydd Athletau Cymru, yn ôl eu disgrisiwn llwyr, yn gofyn i'r athletwr gael archwiliad meddygol er mwyn pennu ei ffitrwydd i gystadlu yn y Gemau.

Cynhelir yr archwiliad hwn gan Brif Ffisiotherapydd Athletau Cymru neu Brif Feddyg Chwaraeon Cymru (yn ddibynnol ar natur y mater) ym mhresenoldeb Arweinydd Tîm Athletau Cymru (os nad yw hyn yn bosib yn logistaidd, cadwa Athletau Cymru'r hawl i gyflogi dau unigolyn â chymwysterau addas i weithredu ar ran Athletau Cymru o dan arweiniad llym). Os bydd yr athletwr yn methu neu'n gwrthod ymgymryd â'r archwiliad, tynnir ei enwebiad yn ôl.

Os bydd yr athletwr yn pasio'r archwiliad meddygol a gynhelir yn unol â pharagraff a. uchod, ond fod gan Athletau Cymru bryder rhesymol o hyd ynglŷn â photensial yr athletwr i berfformio o fewn 10% neu lai i'w berfformiadau cymhwysu cyfartalog (5 perfformiad gorau yn y ffenestr gymhwysu) yn ei gystadleuaeth yn y Gemau oherwydd yr anaf neu'r salwch, caiff Arweinydd Tîm Athletau Cymru, yn ôl ei ddisgrisiwn llwyr, ofyn bod yr athletwr yn ymgymryd â set o brofion perfformiad sy'n benodol i'w gystadleuaeth. Cytunir ar y prawf/profion gan Arweinydd Tîm Athletau Cymru a Phrif Ffisiotherapydd Athletau Cymru ac fe'i cynllunnir er mwyn pennu effaith unrhyw anaf/salwch ar botensial yr athletwr i berfformio o fewn 10% neu lai i'w perfformiadau cymhwysu cyfartalog (5 perfformiad gorau yn y ffenestr gymhwysu) yn ei gystadleuaeth yn y Gemau. Os bydd yr athletwr yn methu neu'n gwrthod gwneud y prawf/profion, tynnir ei enwebiad yn ôl.

## Atodiad 3.2 – Cyn y Gemau

Os oes pryder rhesymol ynglŷn â photensial athletwr i berfformio o fewn 10% neu lai i'w berfformiadau cymhwyso cyfartalog (5 perfformiad gorau yn y ffenestr gymhwyso) yn ei gystadleuaeth yn y Gemau, bydd Arweinydd Tîm Athletau Cymru a Phrif Ffisiotherapydd Athletau Cymru, yn ôl eu disgrisiwn llwyr, yn gofyn i'r athletwr gael archwiliad meddygol er mwyn pennu ei ffitrwydd i gystadlu. Cynhelir yr archwiliad hwn gan Brif Ffisiotherapydd Athletau Cymru neu Brif Feddyg Chwaraeon Cymru (yn ddibynnol ar natur y mater) ym mhresenoldeb Prif Hyfforddwr Athletau Cymru neu Arweinydd y Tîm (os nad yw hyn yn bosib yn logistaidd, cadwa Athletau Cymru'r hawl i gyflogi dau unigolyn â chymwysterau addas i weithredu ar ran Athletau Cymru o dan arweiniad llym). Os bydd yr athletwr yn methu neu'n gwrthod ymgymryd â'r archwiliad, tynnir ei enwebiad yn ôl.

Os bydd athletwr yn gwrthod neu'n methu'r archwiliad meddygol neu brofion penodol i'r gystadleuaeth a gynhelir yn unol â chais Arweinydd Tîm Athletau Cymru ar y cyd â Phrif Ffisiotherapydd Athletau Cymru tra ym Mhrydain (cyn teithio i wersyll paratoi) caiff yr athletwr ei dynnu o'r gwersyll paratoi.

Os bydd athletwr yn gwrthod neu'n methu'r archwiliad meddygol neu brofion penodol i'w gystadleuaeth a gynhelir ar gais Arweinydd Tîm Athletau Cymru ar y cyd â Phrif Ffisiotherapydd Athletau Cymru tra bydd mewn/yn mynychu gwersyll paratoi, cynhelir trafodaeth resymol rhwng yr athletwr, Arweinydd y Tîm a'r Prif Ffisiotherapydd ynglŷn â thynnu'r athletwr yn ôl o'r gwersyll paratoi.

Mae Athletau Cymru'n cadw'r hawl bob amser i ofyn caniatâd Athletwyr i ofyn cyngor ychwanegol gan ymarferwyr allanol addas os peryglir unrhyw benderfyniad y mae'n rhaid ei wneud drwy beidio â gwneud hynny.

## Atodiad 3.3 Ar ôl i Dîm Cymru gofrestru ar gyfer y Gemau

Ar ôl i Dîm Cymru gofrestru ar gyfer y Gemau, dim ond yn unol â Pholisi Disodli Athletwyr yn Hwyr y CGF (*Late Athlete Replacement Policy*) (neu unrhyw un o bolisiâu diwygiedig y CGF sy'n ymwneud â disodli athletwyr sydd mewn grym ar y pryd) y caniateir dad-ddethol neu roi lle unrhyw athletwyr i athletwr arall. Gellir dad-ddethol athletwyr yn y cyfnod hwn os nad yw'r athletwr bellach yn gymwys (fel y manylir ym mharagraff 36) neu oherwydd anaf/salwch. Mewn amgylchiadau o'r fath, os bydd Arweinydd Tîm Athletau Cymru a/neu Brif Ffisiotherapydd Athletau Cymru'n credu y gallai anaf/salwch athletwr effeithio ar ei botensial i berfformio o fewn 10% neu lai i'w berfformiadau cymhwyso cyfartalog (5 perfformiad gorau yn y ffenestr gymhwyso) yn ei gystadleuaeth yn y Gemau, bydd y broses ganlynol yn cael ei dilyn:

- (i) Bydd Prif Swyddog Meddygol Tîm Cymru, ar y cyd â Phrif Ffisiotherapydd Athletau Cymru, yn gofyn bod yr athletwr yn cael archwiliad meddygol er mwyn pennu ei ffitrwydd i gystadlu. Cynhelir yr archwiliad hwn gan Brif Ffisiotherapydd Athletau Cymru neu Brif Feddyg Chwaraeon Cymru (yn ddibynnol ar natur y mater). Os bydd yr athletwr yn methu, neu'n gwrthod yr archwiliad, tynnir ei enwebiad yn ôl.

- (ii) Os bydd yr athletwr yn pasio'r archwiliad meddygol a gynhelir yn unol â'r paragraff uchod, ond fod Athletau Cymru a/neu Dîm Cymru'n dal yn bryderus ynglŷn â'i botensial i berfformio o fewn 10% neu lai i'w berfformiadau cymhwyso cyfartalog (5 perfformiad gorau yn y ffenestr gymhwyso) yn ei gystadleuaeth yn y Gemau oherwydd yr anaf neu'r salwch, caiff Chef de Mission Tîm Cymru, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, ofyn yn rhesymol i'r athletwr ymgymryd â set o brofion perfformiad penodol i'w gystadleuaeth. Cytunir ar y prawf/profion gan Arweinydd Tîm Athletau Cymru, Prif Ffisiotherapydd Athletau Cymru a chynrychiolydd a ddirprwyir gan Dîm Cymru ac fe'i cynllunnir er mwyn pennu effaith unrhyw anaf/salwch ar botensial yr athletwr i berfformio o fewn 10% neu lai i'w berfformiadau cymhwyso cyfartalog (5 perfformiad gorau yn y ffenestr gymhwyso) yn ei gystadleuaeth yn y Gemau. Os bydd yr athletwr yn methu neu'n gwrthod gwneud y prawf/profion, tynnir ei enwebiad yn ôl.
- (iii) Os bydd athletwr yn gwrthod neu'n methu'r archwiliad meddygol neu brofion penodol i'w gystadleuaeth fel y nodir uchod tra yng Ngwersyll Paratoi CWG neu Bentref y Gemau, cynhelir trafodaeth resymol rhwng yr athletwr, Arweinydd Tîm Athletau Cymru a chynrychiolydd Tîm Cymru ynglŷn â thynnu'r athletwr yn ôl o Bentref/ Gwersyll paratoi CWG. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir yn y cyfarfod hwn yn adlewyrchu gallu'r Athletwr i berfformio yn ystod y Gemau a gallu Tîm Cefnogi Athletau Cymru / Tîm Cymru i hwyluso a'r protocolau y bernir eu bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r athletwr i berfformio.

**Sylwer:** Bydd unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar dynnu Enwebiadau / Achrediaadau'r Tîm yn ôl yn cael eu cyfathrebu bob amser i'r canlynol mewn modd amserol er mwyn iddynt gael arolygu:

- (i) Prif Swyddog Gweithredol Athletau Cymru
- (ii) Cadeirydd Athletau Cymru
- (iii) Rheolwr Academi Chwaraeon Anabledd Cymru
- (iv) Cyfarwyddwr Bwrdd Athletau Cymru – (Cadeirydd yr Is-grŵp Perfformiad)